OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 62 (Cy. 11)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Gwartheg Hŷn (Gwaredu) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*18 Ionawr 2006*
Yn dod i rym	- -	*23 Ionawr 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Gan arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwartheg Hŷn (Gwaredu) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 23 Ionawr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Dirymir Rheoliadau Anifeiliaid Buchol (Gorfodi Cynllun Prynu'r Gymuned) 1996(**3**) i'r graddau y maent yn gymwys yng Nghymru.

Tramgwyddau

3.—(1) Mewn lladd-dy, os eir yn groes i neu os methir cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 ar 19 Ebrill 1996 ("y Rheoliad Comisiwn") sy'n mabwysiadu mesurau cymorth eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion yn y Deyrnas Unedig(**4**) y cyfeirir ati yn Rhan I o'r Atodlen, bydd gweithredydd y lladd-dy yn euog o dramgwydd.

(2) Mewn mangre lle y ceir hylosgydd neu mewn safle prosesu, os eir yn groes i neu os methir cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth y cyfeirir ati yn Rhan II o'r Atodlen, bydd gweithredydd y fangre honno yn euog o dramgwydd.

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972, p. 68.
(**3**) O.S. 1996/1193.
(**4**) OJ Rhif L99, 20.4.96, t.14, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2109/2005 (OJ Rhif L 337, 22.12.2005, t.25).

Gorfodi a phenodi arolygwyr

4. Mae'r Rheoliadau i'w gorfodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a rhaid iddo benodi arolygwyr at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Pwerau mynediad a phwerau arolygwyr

5.—(1) Mae gan arolygydd, wedi iddo ddangos, os gofynnir iddo wneud hynny, rhyw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos ei awdurdod ef neu hi, hawl ar bob adeg resymol i fynd ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliad Comisiwn; ac yn y rheoliad hwn mae "mangre" yn cynnwys unrhyw gerbyd neu gynhwysydd.

(2) Caiff arolygydd—

(a) atafaelu unrhyw sgil-gynhyrchion anifeiliaid a'u gwaredu yn ôl yr angen;

(b) cyflawni unrhyw ymholiadau, archwiliadau a phrofion;

(c) cymryd unrhyw samplau;

(ch) mynd at, ac archwilio a chopïo unrhyw gofnodion (ar ba ffurf bynnag y cedwir hwy) sy'n cael eu cadw o dan y Rheoliadau hyn neu'r Rheoliad Comisiwn, neu fynd â'r cofnodion hynny oddi yno i'w gwneud yn bosibl eu copïo;

(d) mynd at, archwilio a gwirio gweithrediad, unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig sy'n cael ei ddefnyddio neu wedi'i ddefnyddio mewn cysylltiad â'r cofnodion; ac at y diben hwn caiff ofyn i unrhyw berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'u gweithredu, i roi i'r arolygydd unrhyw gymorth y bydd yn rhesymol i'r arolygydd ofyn amdano (gan gynnwys rhoi iddo'r cyfrineiriau angenrheidiol) ac, os cedwir cofnod drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff ofyn i'r cofnodion gael eu cyflwyno ar ffurf sy'n caniatáu mynd â hwy oddi yno;

(dd) marcio unrhyw anifail, sgil-gynnyrch anifail neu beth arall at ddibenion eu hadnabod; ac

(e) mynd ag unrhyw berson arall gydag ef, y mae ef neu hi o'r farn bod ei angen.

(3) Bydd unrhyw berson sy'n difwyno, difodi neu dynnu unrhyw farc a osodwyd o dan baragraff (2)(dd) yn euog o dramgwydd.

(4) Os bydd arolygydd yn mynd i unrhyw fangre nad yw wedi'i meddiannu rhaid iddo ei gadael wedi'i diogelu mor effeithiol rhag mynediad diawdurdod ag ydoedd pan aeth ef neu hi yno gyntaf.

Rhwystro

6. Mae unrhyw berson yn euog o dramgwydd os yw ef neu hi—

(a) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson sy'n rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith;

(b) yn methu, heb achos rhesymol, â rhoi i unrhyw berson sy'n rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith unrhyw gymorth neu wybodaeth y gall y person hwnnw ofyn yn rhesymol amdano neu amdani er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn;

(c) yn rhoi i unrhyw berson sy'n rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith unrhyw wybodaeth y mae'r person hwnnw sy'n rhoi'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol; neu,

(ch) yn methu â dangos cofnod, pan ofynnir iddo wneud hynny, i unrhyw berson sy'n rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith.

Hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid

7. Os yw arolygydd yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn iechyd anifail neu iechyd cyhoeddus neu os oes unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn neu'r Rheoliad Comisiwn nas